# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Joan Butterfield, Bill Cowie, Ann Davies (Is-Gadeirydd), Meirick Davies, Richard Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Prif Gyfreithiwr (SC), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (LG), Tîm Datblygu Economaidd a Busnes a Rheolwr Prosiect (MH), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Gwasanaeth, Tîm Diogelu ac Adolygu (CT) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW).

Cyn dechrau cyfarfod y Cyngor, estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gwyneth Kensler, gydymdeimlad â'r Cynghorydd Bill Tasker wedi iddo golli ei chwaer yn ddiweddar.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong, Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Stuart Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Dewi Owens, Anton Sampson, Bill Tasker a/ac Cheryl Williams

## 2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Dim Datganiad o Gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a gynhaliwyd ar gyfer y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 13 Awst 2015 a 12 Hydref 2015 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Medi 2015.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.*

Yn y fan hon, cyflwynodd y Cadeirydd Meira Owen o HomeStart i roi esboniad byr i Aelodau am y gwaith a wnaed gan HomeStart o fewn y gymuned a'r teuluoedd y maent yn eu cynorthwyo.

Diolchodd Meira Owen i Aelodau'r Cyngor am ganiatáu iddi gael cyfle i esbonio gwaith HomeStart.

Roedd HomeStart yn elusen a oedd wedi cefnogi teuluoedd yn Sir Ddinbych am y 15 mlynedd diwethaf. Roedd tîm o tua 100 o wirfoddolwyr o gymunedau amrywiol ar draws y sir ynghyd â 5 aelod o staff. Y meini prawf i gael atgyfeiriad i HomeStart oedd bod angen i un plentyn yn y teulu fod o dan 11 oed.

Yn dilyn y cyflwyniad gan Meira Owen, diolchodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Raymond Bartley i Meira a'i thîm am yr holl waith caled a wnaethant o fewn y cymunedau, a oedd yn amhrisiadwy.

## 6 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014-15

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r aelodau gymeradwyo fersiwn drafft o Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2014/15, yn amodol ar newidiadau y cytunwyd arnynt, er mwyn iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2015.

Eglurodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio fod Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2012-2017 wedi gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y Cyngor a'i flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd. Mae manylion bwriad y Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau wedi eu nodi yn y Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol ac yn Nogfen Darparu Blynyddol y Cynllun Corfforaethol, ac mae cyfres o Gytundebau Canlyniad wedi eu cytuno arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Roedd yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn darparu gwerthusiad ôl-syllol o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni yn erbyn y cynlluniau yma yn ystod 2014-15, a p'un ai yw'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni ei rwymedigaeth gogyfer â gwneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn llwyddiannus ai peidio.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei ddatblygu gan y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor. Roedd yr wybodaeth ynglŷn â pherfformiad a oedd wedi ei chynnwys yn y ddogfen wedi cael ei darparu gan y gwasanaethau, ac wedi cael eu dwyn ynghyd yn defnyddio system

rheoli perfformiad Verto. Ymgynghorwyd â’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth cyn cyflwyno’r adroddiad ger bron y Cyngor Sir i’w gymeradwyo.

Dyma oedd y cynllun mwyaf uchelgeisiol hyd yma a dyma oedd trydedd flwyddyn y cynllun. Roedd cynnydd da wedi ei wneud ond roedd llawer o waith i'w wneud o hyd. Roedd yr ystadegau yn yr adroddiad wedi’u diweddaru ar ddiwedd mis Mawrth 2015.

Aeth y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio ymlaen gyda chyflwyniad PowerPoint ar gyfer Aelodau, a oedd yn cynnwys astudiaethau achos i roi enghreifftiau cliriach o'r gwaith yn mynd rhagddo.

Roedd angen camau allweddol ar saith maes blaenoriaeth, a’r blaenoriaethau hynny oedd:

- Datblygu Economaidd
- Addysg
- Ffyrdd
- Pobl Ddiamddiffyn
- Strydoedd Glân a Thaclus
- Tai, a
- Moderneiddio'r Cyngor

Eglurodd y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes a’r Rheolwr Rhaglen y mentrau sy'n datblygu Rhaglen Gymuned Economaidd. Pwysigrwydd band eang derbyniol a thelathrebu a chanolbwyntio ar fusnesau yn y defnydd o dechnoleg. O fewn Gwefan CSDd, roedd tudalen i’w sefydlu a fyddai'n cynnwys gwybodaeth i fusnesau, a byddai'r dudalen yn cynnwys clipiau fideo byr, sydyn o fusnesau yn esbonio sut maent yn defnyddio technoleg i wella eu busnes. Roedd cynlluniau i gael tua chwe chlip fideo gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dangosodd y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes a’r Rheolwr Rhaglen enghraifft o fersiwn drafft o fideo gan gwmni wedi'i leoli yn Ninbych.

Yn dilyn y fideo, codwyd yr eitemau canlynol yn ystod trafodaeth:

- Roedd cyflymder band eang mewn rhai ardaloedd gwledig yn fater parhaus. Cadarnhawyd bod BT a band eang cyflym iawn yn araf ond cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru oedd cysylltu â BT i wella'r gwasanaeth. Gofynnwyd i Gynghorwyr lobïo Llywodraeth Cymru ar y mater. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai'r mater o gyflwyno band eang cyflym iawn gael ei alw i'r Pwyllgor Craffu. Byddai'r pryderon hefyd yn cael eu codi gydag Aelodau'r Cynulliad.
- Roedd clipiau fideo Cymraeg yn dasg anoddach gan fod prinder perchnogion busnes Cymraeg a oedd yn fodlon cymryd rhan i ffilmio fideo.
- Yn dilyn ailstrwythuro'r Adran, cafwyd mwy o ryngweithio gydag Adrannau eraill. Roedd Rheolwr Prosiect bellach ar waith, a'i dasg oedd rhoi’r holl wybodaeth at ei gilydd. Roedd 16 o brosiectau ar hyn o bryd, a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd er mwyn sicrhau bod amserlenni ar gyfer prosiectau yn parhau ar y trywydd cywir.

- Atgoffodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yr Aelodau fod y ffigyrau a ddangosir hyd at ac yn cynnwys mis Mawrth 2015. Roedd y gwaith wedi ei gwblhau gyda thîm llai ynghyd ag integreiddio Adrannau eraill. Roedd cwmnïau y tu allan i'r Awdurdod Lleol bellach yn cael eu cysylltu, ac roedd dulliau cyfathrebu gyda hwy yn tyfu. Roedd hyn wedi creu adnodd gyda'r Awdurdod Lleol ar dîm llai.
- Y Cynllun fyddai cadw busnesau presennol. Roedd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, ynghyd â'r Arweinydd, amserlen i gyfarfod â'r 10 neu'r 15 o fusnesau gorau yn Sir Ddinbych er mwyn annog twf ac i gefnogi busnesau i dyfu a chyflogi nifer fwy o bobl. Roedd trydaneiddio'r rheilffordd hefyd yn fater trafod ar hyn o bryd.
- Cytunodd yr Aelodau fod gan Aelodau'r Cynulliad hefyd ran i'w chwarae, oherwydd dylent fod yn atebol a chefnogi eu Hawdurdodau Lleol.
- Cwestiynwyd materion o gyfraddau gostyngol ar gyfer busnesau llai, yn enwedig ar Strydoedd Fawr Tref Sir Ddinbych a hefyd ym Mharc Busnes Llanelwy. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, y byddai'n coladu nodyn briffio o ba gynlluniau a gynigiodd cymorth gyda chyfraddau a'i ddosbarthu i Aelodau.

Gwella Blaenoriaeth mewn Addysg ac Ansawdd Adeiladau Ysgolion Roedd y myfyrwyr sy'n cyflawni eu potensial – roedd hyn yn "dderbyniol". Bu gwelliant yn yr holl ddangosyddion cyrhaeddiad addysgol a nodwyd ar gyfer y canlyniad hwn yn y flwyddyn academaidd 2013/2014. Y gwelliant lleiaf oedd ymysg disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2. Dywedodd y Cynghorydd Carys Guy y gellid gwella addysg. Roedd angen mwy o athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mynegodd y Prif Weithredwr bryder a nododd y gellid gwneud mwy o welliannau.

Gwella ein Ffyrdd – roedd hyn yn "Dda". Cafodd dangosyddion cyflwr y ffyrdd eu cymharu gyda grŵp o ardaloedd awdurdod lleol gwledig tebyg yng Nghymru. Er gwaethaf gwelliant, ystyriwyd bod y prif ffyrdd (B) yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella. Mae'r prif ffyrdd (A) a'r ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) wedi gwella.

Gall pobl ddiamddiffyn fyw mor annibynnol â phosibl – roedd hyn yn "Dda". O fewn y canlyniad hwn, addawodd yr Awdurdod Lleol i leihau nifer yr oedolion a oedd angen gofal preswyl o 200 (yn gyffredinol), o 815 yn 2012 i 615 erbyn 2017. Y cyfanswm ar gyfer 2014/15 oedd 697 a ddangosodd bod cynnydd da yn cael ei wneud tuag at yr uchelgais.

Caiff pobl ddiamddiffyn eu diogelu – roedd hyn yn "Rhagorol".

Strydoedd Glân a Thaclus – creu amgylchedd deniadol i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd – roedd hyn yn "Rhagorol"
Yn y fan hon, cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd astudiaeth achos ynglŷn â safleoedd hyll.

Effaith safleoedd hyll oedd:

- Lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y gymuned
- Amwynder gweledol
- Targedau ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Graffiti
- Tipio anghyfreithlon
- Fermin
- Diogelwch, a
- Gwerthoedd eiddo lleol.

Roedd cronfa ddata wedi cael ei sefydlu o tua 100 o safleoedd hyll oedd yn amrywio o safleoedd â phroblem fawr i anheddau blêr unigol. Dyfeisiwyd matrics sgorio i helpu i flaenoriaethu'r safleoedd gwaethaf. Roedd y 20 uchaf yn canolbwyntio ar ymdrech a'r tu allan i'r 20 uchaf yn rhan o weithgareddau rheoleiddio o ddydd i ddydd.

Roedd strwythur prosiect ac roedd Tîm y Prosiect yn cyfarfod bob yn ail fis:

- Ystyried opsiynau gorfodaeth/ rheoliadol
- Beth oedd y canlyniadau posibl ar gyfer pob safle, a
- Defnyddio pwerau gorfodi i hwyluso canlyniad.

Cafodd diweddariadau rheolaidd eu darparu i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, a Grwpiau Ardal yr Aelodau. Cafodd diweddariadau cyfnodol eu darparu i Aelodau Lleol.

Ategodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod yr enghreifftiau a ddangosir yn yr astudiaeth achos o 2014. Gofynnodd aelodau i restr gyfoes gael ei dosbarthu iddynt er gwybodaeth. Awgrymodd y Cadeirydd bod dolen i'r gronfa ddata yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau a chytunwyd o blaid y weithred hon.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'i Dîm am eu holl waith.

**Ar y pwynt hwn (11.35 am) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.55 a.m.**

Parhaodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio gyda'r cyflwyniad.

Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da. Byddai'r farchnad dai yn Sir Ddinbych yn cynnig amrywiaeth o fathau o dai a digon ohonynt i ddiwallu anghenion unigolion a theuluoedd – roedd hyn yn "Rhagorol".

Roedd y Strategaeth Dai ddiwygiedig ar y gweill. Sefydlwyd Grŵp Llywio yr Aelod Arweiniol gyda chyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i roi mewnbwn i'r Strategaeth sydd i ddod.

Yn dilyn trafodaeth ddwys, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r mater arian a oedd wedi ei dynnu i lawr gan Landlordiaid Cymdeithasol dros y 9 mlynedd diwethaf yn cael ei gwestiynu, oherwydd roedd y mwyafrif o lety a ddarparwyd wedi bod yn fflatiau a/neu dai amlfeddiannaeth. Nid oedd y problemau hyn yn cael sylw a chytunodd y Cynghorwyr bod angen gofyn cwestiynau am nad oedd y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi bod yn perfformio'n arbennig o dda.
- A oedd Aelodau'n cymryd rhan gyda'r Grŵp Llywio Aelod Arweiniol? Cadarnhawyd bod yr Aelodau'n gallu cynnig unrhyw sylwadau/cwestiynau i'r Grŵp Llywio Aelod Arweiniol ond ni allent fod yn bresennol fel aelodau o'r Grŵp. Eglurwyd i'r Aelodau fod y Strategaeth Tai ar gyfer mynd i'r afael â strategaeth ar gyfer y sir gyfan ac nid dim ond landlordiaid cymdeithasol a thai fforddiadwy. Byddai'r Strategaeth yn cael ei chyflwyno yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ac yna i'r Cyngor Llawn.
- Roedd y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wedi eu tynnu oddi ar Raglen Briffo Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor ar 2 Tachwedd, ond ystyriwyd barn y consensws a chytunwyd i adfer y Cyfrif Refeniw Tai i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar y dyddiad hwnnw.

Moderneiddio'r Cyngor i fod yn effeithlon a gwella gwasanaethau i gwsmeriaid Bydd gwasanaethau'n parhau i ddatblygu a gwella – roedd hyn yn "Dda". Gweithlu mwy hyblyg ac effeithiol a gaiff ei gefnogi gan isadeiledd cost-effeithiol – roedd hyn yn "Dderbyniol".

Roedd y Cyngor yn gweithio i ddefnyddio technoleg i wella effeithlonrwydd a lleihau costau. Cafwyd buddsoddiad mewn caledwedd a meddalwedd a fyddai'n galluogi i staff weithio mewn ffyrdd newydd er mwyn gwella profiad y cwsmer. Un peth oedd gweithio hyblyg er mwyn galluogi gwaith o unrhyw leoliad. Byddai hyn yn gwella manteision cydbwysedd gwaith/bywyd ac yn fwy economaidd o ran gofod swyddfa yn y pen draw.

Eglurodd Rheolwr Gwasanaeth y Tîm Diogelu ac Adolygu, Colin Tucker, i Aelodau lwyddiant gweithio hyblyg yn ei Dîm. Roedd modd i staff weithio ar ffurf "desg boeth" a oedd yn golygu llai o amser teithio. Roedd modd i staff weithio ar eu cyfarpar wrth fynd i apwyntiadau ac roedd amseroedd apwyntiadau yn fwy ffafriol ar gyfer y plant a theuluoedd oherwydd gellid eu gweld ar ôl oriau ysgol.

Byddai ansawdd ansoddol yn cael ei gyflwyno a byddai monitro perfformiad staff yn cael ei gynnal. Yna byddai'r gudd-wybodaeth yn cael ei defnyddio i gynorthwyo gyda hyfforddiant, datblygu sgiliau newydd ac i ddod yn aelod mwy cymwys o staff.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Oedolion a Gwasanaethau Plant, y Cynghorydd Bobby Feeley, i'r Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio a'i Dîm am eu holl waith ar yr adroddiad a'r astudiaethau achos ardderchog.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Barbara Smith.

Cynhaliwyd pleidlais drwy godi dwylo – roedd pleidlais unfrydol o blaid yr argymhelliad.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar unrhyw newidiadau cytûn, bod Aelodau yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2014-15 er mwyn ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2015.*

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd y Cadeirydd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Cytunwyd yn gynharach yn y cyfarfod i adfer y Cyfrif Refeniw Tai i Friff y Cyngor a gynhelir ar 2 Tachwedd, 2015.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.**